CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc/ *Clerk*	26 Stryd Fawr
Caroline Jones	Bethesda
01248 602131	Gwynedd
cyngorLlanllechid@ogwen.org	LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol mis Medi a gynhaliwyd ar nos Iau 10fed o Fedi 2026 am 7yh yn Festri Capel Bethlehem, Talybont

1. Presennol

Ward Llanllechid Isaf
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Evan Jones

Ward Llanllechid Uchaf
Y Cynghorydd Dafydd Jones
Y Cynghorydd Kevin Williams

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Yr Is Gadeirydd, Y Cyng. Kevin Williams.

2.Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Lowri Evans

Y Cyng Robin Williams yn y cyfarfod am gyfnod.

Cafwyd munud o dawelwch ar ddechrau'r cyfarfod fel arwydd o barch at y diweddar Julian Johnson. Roedd Julian yn aelod gwerthfawr o gymuned Talybont ac wedi rhoi cefnogaeth sylweddol i'r Cyngor Cymuned dros nifer o flynyddoedd.

3. Datgan diddordeb.

Y Cyng Kevin Williams yn datgan diddordeb yn brosiect adnewyddu stand llefrith Bryn Owen.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 9fed o Orffennaf 2026.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ..... Dyddiad .....

5. Materion yn codi o'r cofnodion

5.1 Arwyddion Maes y Groes – Gohebiaeth gan Meirion MacIntyre-Huws, 10-3-26 Mae Priffyrdd wedi gaddo gosod yr arwydd yn yr wythnosau/mis neu ddau nesaf. Y Clerc i ddilyn fyny.

5.2 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen– Y Clerc wedi wedi siarad gyda Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr (11/9/25). Dim diweddariad, dal ar y rhestr waith. Y Clerc i gysylltu am ddiweddariad.

5.3 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 – Y Y Cyng Rhydian Williams wedi ymweld a'r safle a tynnu lluniau. Dim ysbwriel.

5.4 Terfyn Cyflymder Lon Wig - Siân Gwenllian, Aelod o'r Senedd dros Arfon - wedi ysgrifennu at Cyngor Gwynedd yn gofyn am diweddariad.

5.5 Sedd Wag Llanllechid Uchaf – Sedd wag wedi ei hysbysebu.

5.6 Lôn Goed – Lôn wedi culhau a drain wedi gordyfu – Ebost gan Ian Morgan 11-3-26 Arolygwr ffyrdd am daro golwg. Preifat yw'r mwyafrif o gloddiau sydd gyfochrog a'r rhwydwaith ffyrdd cyhoeddus. Mae tyfiant o'r cloddiau fod wedi cael eu torri fel rhan o gylch gwaith cynnal y tir berchnogion lleol. A hynny dros gyfnod y gaeaf tra mae'r cyfyngiadau tymor nythu ddim mewn lle.
Y Clerc wedi rhannu rhif ffon y Cyng Kevin Williams gyda Mr Morgan.
Dim diweddariad.

5.7 Adnewyddu Stand Llefrith Bryn Owen - Grant wedi ei dderbyn gan Gronfa Gwynedd ni at y brosiect. Trafodwyd y ddwy dyfynbris, Elidir fencing a [redacted] Oherwydd y pwyslais gan Elidir fencing ar ddefnyddio dulliau traddodiadol a'r pwysigrwydd o hyn oherwydd ei fod yn safle hanesyddol, penderfynwyd derbyn dyfynbris Elidir fencing. Y Clerc i gysylltu gyda'r ddau gwmni.

6. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.

Dim adroddiad.

7. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol;

Tomos Shaw	Llwybrau	£1000
Cyngor Gwynedd	Archwiliad Mewnol 2025-26	£444
Ysgol Dyffryn Ogwen	Ysgoloriaeth	£150
Rhydian Williams	Petrol i'r mower	£19.23
Partneriaeth Ogwen	Clercio a datblygu cymunedol 10/26 -03/27	£5393.84

8. Y Mynydd

8.1 Cymdeithas Merlod

Ebost wedi ei yrru i Abbie Edwards yn gofyn am eglurhad

- Beth fydd cyfansoddiad y gymdeithas?
- Syd mae Abbie yn rhagweld perthynas rhwng y Cyngor Cymuned a'r gymdeithas?
- Beth fydd cyfrifoldebau y Cyngor Cymuned?

Dim diweddariad

8.2 Merlod

- Derbynwyd ebost gan Vicky Rowe (gohebiaeth 9) FOI/EIR request - livestock and Carneddau pony grazing on Llanllechid common. Mae'r clerc wedi hysbysu Ms Rowe y byddwn yn cysylltu â'r unigolion perthnasol i gael yr wybodaeth sydd ei hangen.

8.3 Sefyllfa ffermydd Nant Ffrancon.

Yn dilyn trafodaeth , etynodd aelodau'r Cyngor Cymuned eu cefnogaeth llwyr i bryderon lleol am arferion yr Ymddiriolaeth Genedlaethol dros y blynyddoedd diweddar. Hyn sydd wedi arwain at ddi-boblogi Nant Ffrancon ac effaith hynny ar gymunedau, treftadaeth a diwylliant yr ardal. Y Cyng Geraint Hughes am ddrafftio llythyr.

8.4 Dyraniad mynydd

Oherwydd y cynllun newydd ffermio cynaladwy, nid yw ffigyrau dyraniad mynydd wedi ei dderbyn gan Gaerfyrddin. Y Clerc i ddilyn i fyny.

9. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont

- Y Clerc wedi cysylltu gyda Mr Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd am feinciau i'r cae chwarae. Mae'r meinciau ar gael i'w casglu. Y Cyng Robin Williams am drefnu nol y meinciau.
- Derbynwyd ymateb cwyn gan drigolyn Talybont am leoliad ac edrychiad y cwt ar y cae peldroed. Trafodwyd y cŵyn. Mae'r cyngor yn fodlon ystyried, fel rhan o'r prosiect, sgrinio'r cynhwysydd o'r golwg trwy blannu gwrych brodorol.
  Bydd hyn yn dibynnu ar faint o gyllid a dderbynnir. Trafodwyd yr opsiwn o dalu 'peppercorn rent'. Y Cyng Robin Williams am ddrafftio cytyndeb. Dim diweddariad.

10. Cyllid

Cymeradwywyd y cyfrifon / Accounts confirmed.

11. Gohebiaeth

11.1 Eitem 9 yn y gohebiaeth. Vicky Rowe. FOI/EIR request - livestock and Carneddau pony grazing on Llanllechid common.
Mae'r Clerc wedi hysbysu Ms Rowe y byddwn yn cysylltu â'r unigolion perthnasol i gael yr wybodaeth sydd ei hangen.

12. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr

- Y Cyng Wyn Bowen Harries ac Y Cyng Evan Jones wedi mynychu cyfarfod yn Festri capel Bethlehem Talybont. Trefnwyd y cyfarfod gan Bartneriaeth Ogwen, gwaith ymchwil i raglen waith y Barneriaeth i'r dyfodol.
- Y Cyng Evan Jones wedi mynychu cyfarfod wrth gae peldroed Talybont am lifogydd diweddar yng nghyffiniau'r cae. Adroddwyd mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw i ddatru y broblem a nid Carter Jonas.

13. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio

C26/0083/21/CC
Ogwen Bank, Bethesda
Cais i waith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
Gwrthwynebiad ar sail y nifer o goed sydd wedi ei thorri yn flaenorol
Penderfyniad Ar y gweill

NP3/21/LB67A
Tŷ Ffrancon, Nant Ffrancon, Bethesda.
Caniatâd Adeilad Rhestredig i amnewid pump ffenestr flaen wedi eu pydru tebyg am debyg
Penderfyniad Ar y gweill

Dim gwrthwynebiad

Ceisiadau Newydd

C26/0445/21/DT
Bwthyn Corbri, CORBRI, Llanllechid
Trosi adeilad allanol presennol yn anecs i ddarparu llety ychwanegol yn ategol i'r prif dŷ annedd (dosbarth defnydd C3).

Penderfyniad Ar y gweill

Dim gwrthwynebiad

14. Materion Brys/Eraill

- Codwyd pryderon am adwy wrth traeth Aberogwen sydd ddim yn caniatáu i ddŵr lifo. Mae'r adwy wedi cael ei llnau yn y gorffennol, ond bod angen 'marine license'. Y Clerc i gysylltu gyda Carter Jonas yn mynegi pryderon.
- Codwyd pryderon am barcio ar sgwar Llanllechid. Un awgrymiad yw gosod Carreg Orchest ar y gwair. Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r broblem.

15. Adroddiad Llais Ogwan

- Gosodwyd Plac Cwt Dafydd Ross
- Yn dilyn trafodaeth , etynodd aelodau'r Cyngor Cymuned eu cefnogaeth llwyr i bryderon lleol am arferion yr Ymddiriolaeth Genedlaethol dros y blynyddoedd
- Yn dilyn nifer o gwynion, hoffem ofyn yn garedig i bobl osgoi parcio eu cerbydau ar y gwair yn Sgwâr Llanllechid.

16. Dyddiad cyfarfod nesaf – 14fed o Hydref